



Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd – Y Trydydd Sector

Mae rhannau o Gymru yn elwa o gronfeydd Ewropeaidd a gyda'i gilydd gelwir y rhain **Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd**. Dyma'r ddwy gronfa fwyaf cyffredin i'r trydydd sector:



Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)

Pobl yw hanfod ESF. Ei diben yw gwella sgiliau a rhagolygon am waith.



Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)

Busnes a seilwaith yw hanfod ERDF. Ei diben yw cefnogi ymchwil, cryfhau busnesau, hyrwyddo ynni adnewyddadwy a gwella seilwaith.

Y ddwy gronfa arall yw **Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD)** a **Chronfa Pysgodfeydd Ewrop**. Mae'n siwr eich bod eisoes wedi dyfalu bod y rhain yn ymwneud ag amaethyddiaeth a physgod!

European Structural and Investment Funds - The Facts

What Is It?

EU Development Aid

Who gets It?

28 Member States



When do we get It?

7 year funding cycles

Why do we get It?

To raise wealth, promote
development and social
cohesion



How do we receive It?

WEFO

How much of It do we receive?

£1.8 billion between 2014-2020



Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd – Y Ffeithiau

Beth ydynt:

Cymorth Datblygu gan yr UE

Pwy sy'n ei gael?

28 Aelod-wladwriaeth

Pryd rydym yn ei gael?

Cylchoedd cyllido 7 mlynedd

Pam rydym yn ei gael?

I gynyddu cyfoeth, hyrwyddo datblygiad a chydlyniant cymdeithasol

Sut rydym yn ei gael?

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)

Faint rydym yn ei gael?

£1.8 biliwn rhwng 2014-2020

SUT CAIFF YR ARIAN EI DDYRANNU?



Mae'r rhan fwyaf yn mynd i **Orllewin Cymru a'r Cymoedd** sydd wedi'i ddynodi'n rhanbarth llai datblygedig (wedi'i liwio'n felyn). Mae swm llai yn mynd i Ddwyrain Cymru sydd wedi'i ddynodi'n rhanbarth mwy datblygedig. Cynhelir prosiectau naill ai yn Nwyrain Cymru neu yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, ni ellir eu cymysgu. Er enghraifft, mae gan Cynhwysiant Gweithredol 3 phrosiect wedi'u cymeradwy (4 yn fuan): Pobl dros 25 oed Dwyrain Cymru, Pobl dros 25 oed Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, leuencid Dwyrain Cymru ac leuencid Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

BETH MAE ESF AC ERDF YN EI ARIANNU?



Ariennir prosiect **Cenedl Hyblyg2** Chwarae Teg drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Nod y prosiect yw datblygu sgiliau arwain menywod i'w helpu i wneud cynnydd yn y gweithle. Mae'r prosiect yn darparu hyfforddiant rheoli achrededig a chyngor ac arweiniad un wrth un i fenywod sy'n gweithio mewn sectorau anhraddodiadol, megis peirianeg. Mae hefyd yn cefnogi mudiadau i ddod yn fwy cyfartal, teg a hyblyg.



Ariennir prosiect **Busnes Cymdeithasol** Canolfan Cydweithredol Cymru drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF). Mae'n darparu cymorth dwys un wrth un i fusnesau cymdeithasol ledled Cymru sy'n gobeithio ehangu neu greu swyddi.

YM MHA FFORDD Y MAE'R TRYDYDD SECTOR YN CYMRYD RHAN?

Mae'r ddau brosiect uchod yn cael eu cynnal gan fudiadau trydydd sector eitha' mawr a phrofiadol. Ond dyw'r mwyafrif o fudiadau yn y trydydd sector ddim yn cynnal prosiectau ar eu pen eu hunain. Mae rhai'n ffurfio partneriaeth â mudiadau eraill (mae WEFO yn galw'r rhain yn gyd-fuddiolwyr) ond mae'r mwyafrif yn tendro drwy broses gaffael neu'n ymgeisio am grantiau i ddarparu gwasanaethau.